COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU AR BWNC 2 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR,Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR, ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DDYDD IAU, 14 TACHWEDD 2024 AM 10.00

Presennol

Y Cynghorydd C Davies – Cadeirydd y Cyfarfod

GH Haines

Presennol yn Rhithwir

| | | | |
|---|---|---|---|
| D T Harrison | J Llewellyn-Hopkins | RL Penhale-Thomas | R J Smith |
| A Wathan | R Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

S Aspey, F D Bletsoe (Cadeirydd), P Ford ac M Lewis

Nicola Echanis – Pennaeth Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

Gwahoddedigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grŵp – Anabledd Dysgu |
| Kevin Rogers | Social Worker – Tîm Gwaith Cymdeithasol Camddefnyddio Sylweddau |
| Raeanna Grainger | Rheolwr Grŵp, IAA a Lles |
| Charlotte Pickin | Rheolwr Diogelu a’r Ystad Ddiogel |
| Ryan Jones | Rheolwr Strategol Comisiynu Tai |
| Kirsty Williams | Rheolwr Partneriaeth a Diogelwch Cymunedol |
| Sian Bunston | Rheolwr Grŵp – Tîm Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol |
| Greg Robinson | Uwch Reolwr– Camddefnyddio Sylweddau - Cwm Taf Morgannwg |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Stephen Griffiths | Swyddog Craffu Dros Dro/ Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |

Datganiadau o Fuddiannau

Y Cyng J Llewellyn-Hopkins – personol - eitem 5 – Athro mewn ysgolion lleol a llywodraethwr yn Ysgol Gyfun Cynffig

**12. Cymeradwyo'r Cofnodion**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2 dyddiedig 23 Medi 2024 fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Tachwedd 2024 |

**13. Gwasanaeth Integredig Camddefnyddio Sylweddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Diolchodd y Pwyllgor i'r defnyddiwr gwasanaeth a wahoddwyd ac i'r Gweithiwr Cymdeithasol am fod yn bresennol yn y cyfarfod ac am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r trafodaethau.<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod y Cabinet, y Swyddogion, a'r Gwahoddedigion, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol.<br><br>1. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gopi o'r cyflwyniad ynghylch yr ymweliad â'r ganolfan adsefydlu breswyl a fframwaith adsefydlu preswyl Cwm Taf Morgannwg.<br>2. **Gofynnodd** y Pwyllgor am ddadansoddiad o nifer a lleoliad lleoliadau adsefydlu.<br><br>3. Gan gyfeirio at y tablau ar dudalen 11 pecyn yr agenda yn ymwneud â marwolaethau cysylltiedig â |

| | |
|---|---|
| | chyffuriau ac alcohol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, **gofynnodd** y Pwyllgor am ddata cenedlaethol er mwyn ei gymharu â gweddill Cymru a'r Deyrnas Unedig. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Tachwedd 2024 |

## 14. Adroddiad Blynyddol Diogelu Corfforaethol 2023/24

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Yn dilyn ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gydag Aelod y Cabinet a'r Swyddogion, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol a'r ceisiadau canlynol am wybodaeth ychwanegol.<br><br>**Argymhellion**<br><br>4. **Argymhellodd** y Pwyllgor gynnwys data yn adran 'y Gweithlu' o'r adroddiad, gyda mewnbwn gan Adnoddau Dynol, yn egluro yr hyn a olygir wrth gydymffurfio a diffyg cydymffurfio â Pholisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) y Cyngor.<br><br>5. Ystyriai'r Pwyllgor fod y Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n ymwneud â chwblhau'r modiwl e-ddysgu diogelu gorfodol ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n dilyn hyfforddiant diogelu personol helaeth yn ystumio cynrychiolaeth perfformiad y Gyfarwyddiaeth ar y nifer sy'n dilyn y modiwl e-ddysgu. ac **argymhellodd** fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad.<br><br>6. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod diweddariad yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ynglŷn â'r tîm drws ffrynt Ymyrraeth Gynnar ac Atal newydd i gynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r Cynllun Gweithredu ac yn manylu ar sut y caiff ei fonitro gan Fwrdd Rheoli Prosiect dan gadeiryddiaeth Pennaeth y Gofal Cymdeithasol i Oedolion.<br><br>7. **Argymhellodd** y Pwyllgor y dylid gwahodd cynrychiolwyr Addysg ac Adnoddau Dynol i graffu ar Adroddiadau Diogelu Corfforaethol Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>8. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i fynegi eu pryder ynglŷn â'r cyfrifoldebau statudol, nad ydynt wedi eu hariannu'n llawn, sy'n cael eu gosod ar awdurdodau lleol i fynd i'r afael â digartrefedd gan roi pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus. |

| | |
|---|---|
| | 9. **Argymhellodd** y Pwyllgor fod Adroddiadau Diogelu Corfforaethol Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys data cymharol gan awdurdodau lleol cymaradwy yng Nghymru.<br><br>**Gwybodaeth Ychwanegol**<br><br>10. **Gofynnodd** y Pwyllgor am gylch gorchwyl yr archwiliad annibynnol sydd wedi cael ei gomisiynu i edrych ar nifer y plant sy'n dod i dderbyn gofal a manylion y sawl sy'n ei gynnal. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Tachwedd 2024 |

398. **Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD:<br><br>Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn nodi'r Daflen Fonitro Gweithredu'r Argymhellion yn Atodiad B ac yn nodi yr adroddid am y Flaenraglen Waith fel y cafodd ei chymeradwyo gan y Pwyllgor wrth gyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Tachwedd 2024 |

**16. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 14 Tachwedd 2024 |

Er mwyn gwylio dadl bellach a ddigwyddodd ynghylch yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen gyswllt hon, os gwelwch yn dda.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:27.